

Gwell rhwydwaith bysiau i Gymru



Agenda ar gyfer Senedd nesaf Cymru

Daw etholiadau Senedd 2021 ar adeg dyngedfennol i'r sector bysiau yng Nghymru. Mae Covid-19 wedi amharu'n arw ar ein patrymau teithio arferol ac wedi bygwth hyfywedd rhwydwaith bysiau Cymru. Er gwaethaf hyn, rydym ar y llwybr tuag at adferiad gyda chyfradd brechiadau'n cynyddu, gan greu mwy o hyder ymhlith cwsmeriaid, ochr yn ochr â'r economi'n ailagor a'r gobaith o reoliadau Covid-19 pellach yn cael eu llacio ar y gorwel.

Wrth inni edrych tuag at y dyfodol, mae cyfle i adeiladu rhwydwaith bysiau adfywiedig i Gymru ac wrth wneud hynny fynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr a wynebwn; tagfeydd, ansawdd aer, datgarboneiddio, anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd a dibyniaeth ar geir yn ogystal ag ailadeiladu'r economi ar ôl effeithiau'r pandemig.

Deall y Sector Bysiau yng Nghymru¹

Mae'r sector bysiau'n gyflogwr sylweddol yng Nghymru gyda thua 5,000 o staff a refeniw gweithredu o bron £200m y flwyddyn. Mae'r cwmnïau sy'n gweithredu yn y sector yn amrywio o gwmnïau rhyngwladol i weithredwyr dinesig drwodd i fusnesau sy'n cael eu rhedeg gan deuluoedd. Mae mwyafrif llethol y gwasanaethau'n cael eu rhedeg ar sail fasnachol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn cynorthwyo mewn rhai ardaloedd.²



Sector Bysiau Cymru o ran niferoedd: Cyn-covid (2019)

Bu'r duedd o ran defnydd gan deithwyr yn un o ddirywiad yn y cyfnod diweddar, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn nefnydd ceir preifat, tagfeydd yn ychwanegu at amseroedd teithiau ac yn eu gwneud yn llai rhagweladwy, a dirywiad yn y cymorth ariannol i'r sector. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r rheilffyrdd sydd wedi tyfu o ganlyniad i fuddsoddiad. Er enghraifft, yn y flwyddyn 2000 roedd 119m o deithiau bws o gymharu â 102m yn 2019.³

¹ **Llywodraeth Cymru 2020**
Cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2018 i Mawrth 2019

gov.wales/public-service-vehicles-buses-and-taxis-april-2018-march-2019

² **KPTG 2017**
Trends in Scottish bus patronage
https://getonboardwithbus.scot/wp-content/themes/minimum/doc/Trends_in_Scottish_Bus_Patronage.pdf

Llywodraeth Cymru 2018
Cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis):
https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/public-service-vehicles-buses-and-taxis-april-2017-to-march-2018_0.pdf

³ **StatsWales 2020**
Teithiau gan deithwyr ar wasanaethau bysiau lleol yn ôl gwlad ym Mhrydain Fawr ac yn ôl blwyddyn
<https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Public-Service-Vehicles/numberofpassenger-journeysonlocalbusservices-by-gbcountry-year>

Cyllido Rhwydwaith Bysiau Cymru

Mae nifer o ffyrddau cyllido sy'n cynnal y rhwydwaith bysiau yng Nghymru. Mae rhai wedi'u targedu ar gyflenwi gwasanaethau ac mae eraill yn sybsideiddio prisiau tocynnau teithwyr i grwpiau allweddol megis yr oeddrannus.


Cyn y pandemig, roedd cymorth uniongyrchol Llywodraeth Cymru i'r rhwydwaith bysiau yn canolbwyntio'n bennaf ar y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (BSSG). Mae'r BSSG yn helpu i gadw prisiau tocynnau i lawr trwy helpu gweithredwyr gyda chostau. Caiff ei dalu fesul cilometr bws fyw a weithredir ac mae wedi'i rewi i £25m ers ei ddechreuad yn 2013/14 – gyda'r canlyniad y bu gostyngiad mewn termau real dros y cyfnod hwnnw. Yn wir, yn 2011/12 roedd rhagflaenydd y BSSG yn £32m, gan amlygu dirywiad mwy hirdymor yn y cyllid uniongyrchol.⁴

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi teithwyr hefyd trwy'i chynlluniau tocynnau teithio rhatach sy'n cynnwys y rheini gydag anabledd penodedig, y rheini dros 60 a theithwyr iau trwy'i chynllun Fy Ngherdyn Teithio. Mae hyn yn costio tua £70m y flwyddyn ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a gan lywodraeth leol ac yn cyfrannu tuag at ddarparu teithio am ddim neu deithio rhatach i'r grwpiau hyn.

Yn cynnwys cyllid ar gyfer TrawsCymru, roedd cyfanswm cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth bysiau uniongyrchol i weithredwyr yng Nghymru yn £32m yn 2019.⁵ Mae hyn yn cymharu â chyfwerth o £171m ar gyfer gweithrediad rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys 31m o deithiau trên.⁶ Fel y cyfryw, mae'r cymorth ariannol y teithiwr yn tua 30c ar gyfer bysiau a £5.51 ar gyfer trenau.

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru fod â'i ffofws ar yrru twf defnydd bysiau a modd allweddol o wneud hyn fydd mynd i'r afael â sut y mae cyllid yn cael ei ddarparu i gynnal y sector. Dylai'r amgylchedd cyllido helpu gweithredwyr i gadw prisiau tocynnau i lawr, datblygu'r rhwydwaith a gyrru arloesedd. Gyda theithiau dulliau trafniadaeth gyhoeddus eraill yn fychain o gymharu â nifer y teithiau bws a wneir, rhaid rhoi buddsoddiad a sylw ystyrlon yn awr i'r dull trafniadaeth cynaliadwy a ddefnyddir orau yn y wlad.

Effaith y pandemig Covid-19



Mae Covid-19 wedi amharu'n sylweddol ar y rhwydwaith bysiau. O ystadegau'r CPT ei hun a ddarparwyd gan weithredwyr gallwn weld bod niferoedd teithwyr wedi gostwng yn sylweddol, gyda thua 10-20% o'r lefelau arferol yn ystod cyfnodau clo ac yn cyrraedd brig o tua 45% ym misoedd yr haf. Bu'r neges ynghylch iechyd y cyhoedd yn glir - osgoi teithio a gwneud teithiau nad ydynt yn hanfodol yn ystod cyfnodau clo.

Tra bu hyn yn angenrheidiol o safbwynt iechyd y cyhoedd, mae wedi codi amheuaeth ynghylch arferion cwsmeriaid a lefelau hyder. Wrth i'r gyfradd frechu gyflymu ac wrth i hyder cwsmeriaid ddychwelyd, bydd yn hanfodol fod y neges yn newid i un o hyrwyddo teithio ar fysiau gyda'r nod yn y pen draw o dyfu'i ddefnydd.



mae defnydd wedi'i lesteirio i gyn ised â **10%** o'r lefelau arferol yn ystod cyfnodau clo



Bu Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i'r sector yn ystod y cyfnod hwn trwy'i Gynlluniau Brys ar gyfer y Sector Bysiau. Mae angen yn awr i'r partneriaethau a grëwyd rhwng y sector cyhoeddus a gweithredwyr bysiau i ddelio gyda Covid-19 gael eu troi'n weithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â'r heriau tymor hir sy'n wynebu'r sector. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod traffig ffyrdd wedi lleihau yng Nghymru, gan roi cyfle i gyflwyno cynlluniau blaenoriaethu bysiau yn awr a fydd o fudd i gwsmeriaid am flynyddoedd i ddod.

Cyflawni sero-net a gwella ein haer: rhan bysiau

Bydd bysiau'n chwarae rhan ganolog wrth i Gymru bontio tuag at allyriadau sero-net ac aer glanach trwy leihau nifer y ceir ar ein ffyrdd a thrwy symud tuag at gerbydau allyriadau isel iawn. Mae gweithredwyr yn gefnogol i'r broses yma ac maent yn awyddus i groesawu cerbydau allyriadau is. Serch hynny, mae nifer o rwystrau ymarferol ac ariannol y mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru helpu'r sector i'w goresgyn trwy bartneriaeth.

Ni all bysiau dim allyriadau sicrhau niferoedd teithwyr uwch ac allyriadau sero-net ar eu pen eu hunain. Mae'n rhaid i newid dulliau teithio fod yn elfen allweddol yn strategaeth datgarboneiddio Cymru ac i wneud hyn mae arnom angen mesurau blaenoriaethu bysiau a fydd yn darparu gwasanaethau gwell a chyflymach i gwsmeriaid, ac ar yr un pryd yn gwella effeithiolrwydd gweithredol i weithredwyr. Gall hyn helpu gydag ailfuddsoddi mewn cerbydau glanach, gyda nodweddion cyfeillgar i gwsmeriaid ychwanegol, gan greu cylch rhinweddol. Mae tagfeydd yn dal yn her fawr, pa un a yw ceir yn allyriadau isel ai peidio. Mae'n creu llestair ar yr economi a symudedd ein cymunedau, ac felly rhaid i fesurau seilwaith i fynd i'r afael â hyn fod yn flaenoriaeth.

Ar draws y DU, petai pawb yn cymryd un daith bws y mis yn fwy byddai biliwn yn llai o deithiau ceir a byddem yn lleihau allyriadau carbon deuocsid y DU o 2 filiwn tonnell y flwyddyn. Mae'n werth nodi y byddai dim ond 6 thaith yn fwy y flwyddyn ar fws gan bawb yn gyfwerth ag effaith y fflyd bysiau gyfan yn trawsnewid i ddim allyriadau erbyn 2035. Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn cyflawni'r trawsnewid hwn.


Ar draws y DU, petai pawb yn cymryd un daith bws yn fwy y mis byddai



biliwn yn llai o deithiau ceir

a byddem yn lleihau allyriadau CO₂ y DU o

2 filiwn tonnell y flwyddyn



Byddai dim ond **6** thaith yn fwy y flwyddyn ar fws gan bawb yn gyfwerth ag effaith y fflyd bysiau **gyfan**



yn trawsnewid i **ddim** allyriadau erbyn 2035

⁴ **Llywodraeth Cymru 2020**
Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)
senedd.wales/laid%20documents/pri-ld13090-em/pri-ld13090-em%20-e.pdf

⁵ **Llywodraeth Cymru 2019**
Cyllideb Derfynol 2019 i 2020
gov.wales/final-budget-2019-2020

⁶ **StatsWales. 2021**
Teithiau rheilffyrdd gan deithwyr i Gymru, o Gymru neu o fewn Cymru a chyfanswm y teithiau ym Mhrydain Fawr fesul blwyddyn
stats.wales.gov.wales/Catalogue/Transport/rail/rail-transport/railpassengerjourneystofromwithinwalesandtotaljourneysingb-by-year

Gwell Rhwydwaith Bysiau i Gymru: Yr hyn sydd angen inni ei weld


Os yw Cymru i fynd i'r afael â heriau datgarboneiddio a gwella canlyniadau cymdeithasol ac economaidd i'w phobl, bydd angen iddi ymrwymo'n iawn i bolisïau sydd wedi'u cynllunio i greu newid yn nulliau teithio – hynny yw, i roi diwedd ar y ddibyniaeth ar y car ac adeiladu system drafnidiaeth lawer mwy cynaliadwy. Mae'r sector bysiau'n sefyll yn barod i chwarae ei rhan wrth ein cael ni yno, ond mae arnom angen i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol i'n helpu ar ein ffordd:

Adferiad Covid: Partneriaeth ar gyfer y Senedd nesaf

- Adeiladu ar y partneriaethau a ddatblygwyd trwy Covid-19, nodi strategaeth fysiau genedlaethol i Gymru am oes Senedd nesaf Cymru a fyddai'n mynd i'r afael â materion allweddol megis tagfeydd, annog newid dulliau teithio ac ennyn mwy o ddefnydd ar fysiau.
- Defnyddio'r strategaeth i ddarparu dealltwriaeth glir o sut mae Covid-19 wedi effeithio ar arferion trafndiaeth yn y tymor byr a'r tymor hir.
- Ymgysylltu'n agos ac mewn partneriaeth â gweithredwyr bysiau i ddarparu strategaeth fysiau genedlaethol trwy sefydlu Grŵp Llywio Bysiau.
- Parhau i gefnogi gweithredwyr yn ariannol wrth i Gymru bontio allan o reoliadau COVID-19 a thuag at y rhyddid yr oeddem yn ei fwynhau o'r blaen fel teithwyr.


Cyllido Gwell Rhwydwaith Bysiau i Gymru

- Sicrhau bod cyllido trafndiaeth yn cael ei flaenoriaethu yn y weinyddiaeth nesaf yn cynnwys gwario unrhyw gyllid canlyniadol newydd yn deillio o Barnett ar drafnidiaeth.
- Adolygu cyllid trafndiaeth yn ei grynder a mynd i'r afael â'r anghyfartaledd rhwng cyllid i gynnal y rhwydwaith bysiau a mathau eraill o wariant trafndiaeth.
- Ymrwymo i gynnydd blynyddol yn y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau o faint chwyddiant o leiaf er mwyn gostwng costau gweithredu ac felly brisiau tocynnau teithwyr ac i ddatblygu'r rhwydwaith ymhellach.



Datgarboneiddio'r fflyd bysiau

- Sefydlu gweithgor pontio i gerbydau allyriadau isel gyda'r cyfrifoldeb o ddarogan graddfa amser realistig ar gyfer pontio, mewn partneriaeth â gweithredwyr.
- Creu Cronfa Fysiau Gwyrdd i Gymru a fyddai'n helpu gweithredwyr i oresgyn yr heriau o fabwysiadu cerbydau allyriadau isel sy'n aml â chostau cyfalaf ymlaen llaw uchel.
 - Gyda chyllid ychwanegol, cyflwyno cynllun cymhelliant allyriadau isel fel ychwanegiad at y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau (BSSG) presennol



Buddsoddiad Bysiau'n Gyntaf yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru

- Fel rhan o strategaeth fysiau genedlaethol i Gymru, nodi cynllun gwariant cyfalaf ar gyfer mesurau blaenoriaethu bysiau megis lonydd bysiau yn ein hardaloedd trefol.
- Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith bysiau trwy wneud yr hierarchaeth trafndiaeth a mesurau blaenoriaethu bysiau yn ystyriaeth allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru a sicrhau bod i adran 106 ffocws trafndiaeth teithwyr clir.
- Parhau i ddysgu oddi wrth raglenni pilot megis Fflecsi yn ardaloedd gwledig Cymru a gweithio gyda gweithredwyr i'w codi'n gymesur.



Cyswllt

Joshua Miles
Cyfarwyddwr CPT Cymru
josh.miles@cpt-uk.org